C.FF.I. CEREDIGION Y.F.C.

Rhifyn 14

Hydref 2009

# Ar Dân!

www.yfc-ceredigion.org.uk

## O Glwb i Glwb

### Taith feiciau noddedig dros wyl y Banc fis Awst 2009 yng nghwmni tri gwr doeth.



**Pwy oeddech chi i gyd a beth oeddech chi'n codi arian ar gyfer?**
Daniel Downes (Cadeirydd y Sir ar y pryd), Arwel Jones (Is-Gadeirydd y Sir ar y pryd) ac Emyr Evans (Ffarmwr Ifanc y Sir)...........a nifer o aelodau o amryw glybiau'r Sir – llawer gormod i'w henwi'n unigol.
Cyfraniad C.Ff.I. Ceredigion tuag at Apêl Sioe'r Cardis 2010.

**Sawl milltir oedd y daith? A fuoch chi'n hyfforddi cyn cychwyn?**
158 milltir.......er, ar adegau dwi'n siwr fod e lawer hirach! A do, wel bu raid ymarfer! Gyda thipyn o bellter o'n blaenau, rhaid oedd cyfarwyddo'r corff i'r holl seiclo!

**Beth oedd y 'route', a sut groeso gafwyd?**
Ar ôl croeso cynnes a brecwast da yn Nhalybont fore Gwener, pedlo'n galed wedyn draw i Trisant, pleser o'r mwyaf oedd gweld y rhiw i fynd lawr i Ledrod ac yna draw i Langwyryfon, cyn cael stop a chinio yn Llanddeiniol drwy garedigrwydd yr aelodau. O Landdeiniol, bron iddi fod yn anffawd ar Arwel pan dorrodd cadwyn ei feic, ond yn ffodus roedd beic sbâr ar gael i fynd yn ein blaen i Langeitho cyn gorffen y diwrnod yn rasus Tregaron. Dydd Sadwrn wedi noson dda o gwsg, hawdd oedd dechrau'r siwrne am Landdewi Brefi cyn bwrw hi am Bro'r Dderi ac yna lawr i Felinfach i gael cinio yn Nhafarn Dyffryn Aeron. Wedi bwyd blasus, roedd y pwysau ychwanegol yn ei gwneud hi'n anodd iawn i gyrraedd Dihewyd, ond llwyddwyd gyda anogaeth y criw fu'n dilyn yn y "support vehicle"! Mydroilyn oedd y gôl nesaf cyn mynd 'mlaen i Lanwenog a gorffen y noson yn Nhafarn Bach, Pontsiân yng nghanol y rasus moch. Cyrhaeddodd y diwrnod diwethaf mewn fawr o dro, a Troedyraur oedd y nôd cyntaf, yna Bryngwyn wedyn Penparc a hynna oedd diwedd y ffyrdd bach achos y brifffordd oedd yn arwain ni tuag at Caerwedros a'r terfyn sef Clwb Rygbi Aberaeron!
Ymunodd sawl aelod gyda ni ar y daith, bu'n ormod i ambell un! Gwerthfawrogwyd y croeso a'r gefnogaeth gafwyd ymhobman.

**Unrhyw anafiadau?**
O ran ni'n tri, fuon ni'n ffodus iawn o'r 'deep heat'......gallwn ni ddim dweud bod pawb wedi cyrraedd pen y daith mewn un darn – ambell i gyhyr wedi'i dynnu, ambell i sgratsh ac un roli-poli...heb enwi neb!

**Byddech chi'n neud e eto?**
Bydden, roedd e'n ffordd arbennig o gadw'n ffit, ond yn bennaf oherwydd yr hwyl a gafwyd.


**Faint o arian lwyddoch chi godi?**
Bydd rhaid chi wrando'n ofalus yn Eisteddfod y Sir 2009 am y cyfanswm!

**Unrhyw ddiolchiadau bois?**
Wrth gwrs! Diolch yn fawr iawn i'n noddwyr:- Bleddyn Rees (Contractwr Amaethyddol), Gwesty'r Castell Aberaeron, Tafarn Dyffryn Aeron, Genus, Ji-Binc, a Jac-Do, Dŵr Llanllyr, Teifi Concrete, Aled Roberts, Ceir Ardwyn ac wrth gwrs pawb a gyfrannodd drwy ein noddi ar y ffurflenni. Yn ogystal, diolch i bawb a wnaeth ddarparu bwyd i ni ar y daith ac i Geraint Lloyd, Radio Cymru am hysbysebu'r digwyddiad a dilyn ein hyfforddiant ar y radio.

C.FF.I. CEREDIGION Y.F.C.

# SWYDDOGION

# Y SIR AC AR LEFEL CYMRU



**ENW:** Glyn Davies
**CLWB:** Felinfach
**SWYDD:** Llywydd y Sir
**GWAITH BOB DYDD:** Ffermio fferm Lloyd Jack Felinfach
**ATGOF GORAU O'R CLWB:** Cymryd rhan yn y tablo yn Rali 1971 yn Llandygwydd. Thema: 'I ba beth mae'r byd yn dod?'. Felinfach yn dangos ffordd o fyw yr hipis. Cynulleidfa fawr o amgylch y tablo, a'r hanes yn y Western Mail oherwydd rhai o'r aelodau dim ond yn gwisgo dail rhiwbob!!
**FFAITH DDIDDOROL AM EICH HUNAN:** Un o efeilliaid.



**ENW:** Arwel John Jones
**CLWB:** Mydroilyn
**SWYDD:** Cadeirydd y Sir
**GWAITH BOB DYDD:** Trydanwr
**ATGOF GORAU O'R CLWB:** Cael yr anrhydedd i fod yn gadeirydd clwb Mydroilyn pan gynhaliwyd y rali gyntaf yn Mydroilyn yn 2005.
**FFAITH DDIDDOROL AM EICH HUNAN:** Byth yn cleisio!



**ENW:** Bronwen Morgan
**CLWB:** Bwlchllan
**SWYDD:** Is-lywydd y Sir
**GWAITH BOB DYDD:** Prifweithredwraig Cyngor Sir Ceredigion
**ATGOF GORAU O'R CLWB:** Mwynhau fy hun yn cynrychioli pwyllgor Cymru mewn cynhadledd yng Nghogledd Iwerddon.
**FFAITH DDIDDOROL AM EICH HUNAN:** Rwy'n ofni popeth pluog.



**ENW:** Alwen Haf Jones
**CLWB:** Felinfach
**SWYDD:** Is-Gadeirydd y Sir
**GWAITH BOB DYDD:** Athrawes yn Ysgol Dyffryn Teifi, Llandysul
**ATGOF GORAU O'R CLWB:** Ennill y Gadair a'r Côr yn Eisteddfod 2007
**FFAITH DDIDDOROL AM EICH HUNAN:** Rwy'n cael Breuddwydion od ofnadwy!



**ENW:** Meira Ann Lloyd
**CLWB:** Llangeitho
**SWYDD:** Arweinydd Fforwm Ieuenctid C.Ff.I. Cymru
**GWAITH BOB DYDD:** Myfyrwraig blwyddyn gyntaf ym Mhrifysgol Aberystwyth
**ATGOF GORAU O'R CLWB:** Cymryd rhan yn Hanner Marathon gyda C.Ff.I Cymru a chystadlu yn Pantomeim Ceredigion.
**FFAITH DDIDDOROL AM EICH HUNAN:** Roeddwn yn pwyso ond 2.11 lb pan ges i fy ngeni.



**ENW:** Enfys Medi Evans
**CLWB:** Llanddeiniol
**SWYDD:** Is-Gadeirydd C.Ff.I. Cymru
**GWAITH BOB DYDD:** Swyddog Prosiect Canolfan Edward Llwyd - sy'n cefnogi, datblygu a hyrwyddo'r gwyddorau'n Gymraeg ym Mhrifysgolion Cymru.
**ATGOF GORAU O'R CLWB:** shwt ma dewis un profiad (!?) Ond ma dod i 'nabod, cydweithio a joio gydag aelodau, rhieni a chyn-aelodau yn fy milltir sgwar a thu hwnt yn brofiad cyfredol gwerth chweil.
**FAITH DDIDDOROL AM EICH HUNAN:** Dwi'n gwbod yn stret pan ma rhywun yn trial fy mwydo a 'baked beans' sy ddim yn Heinz 'baked beans'!!

# Dinbych y Pysgod

## Cardi yn Tenbee!!!!!!

Aeth cwch o wenynod o Geredigion i Ddinbych y Pysgod ganol Medi i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol C.Ff.I. Cymru. Aelodau o Sir y Cardis oedd y gwenyn a chafwyd tipyn o hwyl nid yn aros mewn cwch gwenyn ond mewn carafanau! Nos Wener, bu pawb wrthi yn chwilio am y trysor wrth i bawb gymryd rhan mewn helfa drysor o amgylch y dref. Trefnwyd hyn gan aelodau C.Ff.I. Sir Benfro.

Fore Sadwrn, mynychodd rhai aelodau y cyfarfod blynyddol. Etholwyd Tim John o Sir Benfro yn Gadeirydd C.Ff.I. Cymru ac Enfys Evans (cyn-aelod o glwb Llanddeiniol) yn Is-Gadeirydd. Llongyfarchiadau mawr a dymunidau gorau i ti gyda'r gwaith.
Dathlwyd hyn drwy ymuno yn yr hwyl nos Sadwrn. Parti'r Traeth oedd y thema eleni a gwelwyd aelodau Ceredigion yn edrych yn ddeniadol iawn!












'NABOD PAWB?!




## C.FF.I. Ceredigion yn 70 oed

Yn 2011, bydd C.Ff.I. Ceredigion yn dathlu penblwydd yn 70 oed! Mae un pwyllgor eisioes wedi ei gynnal i drafod sut y gallwn ddathlu a gobeithiwn cynnal nifer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn. Os oes gennych unrhyw luniau neu hanesion a gallai fod yn ddefnyddiol i'w gynnwys mewn DVD neu lyfr– cysylltwch â'r swyddfa. Byddwn yn gwerthfawrogi unrhyw ddeunydd. Bydd cyfarfod arall Nos Fercher y 25ain o Dachwedd yn Nhafarn y Vale, Felinfach am 7.30 y.h. Croeso cynnes i bawb!

## Adroddiad Fforwm Ieuenctid: gan Meira Lloyd

Bu aelodau'r Fforwm Ieuenctid yn brysur iawn yn ystod mis Medi a dechrau Mis Hydref yn gwneud ei ffordd o amgylch clybiau'r Sir er mwyn hybu'r fforwm wrth chwarae gêmau sosial a dangos cyflwyniad i'r aelodau. Cafodd chwe noson eu cynnal yn ystod y cyfnod yma ar gyfer aelodau dan 18 oed y Sir yn Neuaddau Penparc, Llanddewi Brefi, Capel Bangor, Llanrhystud, Felinfach a hefyd ym Mhontsian o dan arweiniad nifer o aelodau gwahanol y Sir. Ein bwriad oedd hyrwyddo'r fforwm i aelodau dan 18 y sir drwy sôn wrthynt am y cyfarfodydd a'r gweithgareddau sydd yn cael eu cynnal ar ôl y cyfarfodydd, y tripiau ac wrth gwrs am yr 'It's a Knockout!' i aelodau dan ddeunaw, sydd bellach yn ddigwyddiad blynyddol yng nghalendr y ffermwyr ifanc. Soniwyd hefyd am fanteision y fforwm nid yn unig yng Ngheredigion ond hefyd yng Nghymru lle mae cyfle i gwrdd â phobl o bob rhan o'r wlad. Roedd yn brofiad gwych i ni fel aelodau'r fforwm a hefyd yn noson ddiddorol a hwylus gobeithio i aelodau'r clybiau a fynychodd. Diolch i chi a fynychodd a gobeithio gwelwn ni chi yn y cyfarfodydd yn Felinfach!!!



# TEITHIAU TRAMOR





## Fy Nhaith i'r Ffindir - Gan Enfys Hatcher

Ar fore dydd Mawrth, y 9fed o Fehefin, dyma fi a fy nghês yn dechrau o adref am y Ffindir. I Gaerfyrddin yn gyntaf, i gwrdd ag Emyr Beynon, ac yna i Gaerdydd erbyn 4 o'r gloch y bore i ddal yr awyren. (Diolch i Gethin, fy mrawd am ddreifo ni.) Rhaid oedd galw yn Amsterdam i drosglwyddo awyrennau hanner ffordd, ac yna fe laniodd yr awyren yn Helsinki am 5 o'r gloch pnawn Mawrth.

Roeddwn yn rhan o grŵp o bump tra yn Helsinki; fi, Emyr a tri crwt o'r Swistir (strabs a hanner!). Dros y deuddydd, gwelsom safleoedd hanesyddol y ddinas, fel yr Eglwys Gadeiriol, un o dyrau talaf y ddinas, y stadiwm, cofgolofn y cyfansoddwr Sibelius a'r siop anferth, Stockman. Aethom hefyd i swyddfa a man cyfarfod mudiad y 4H, lle dysgais am drefn a system y mudiad, sy'n debyg iawn i fudiad y C.Ff.I gyda ni. Fe gawsom gyfle hefyd i gymdeithasu a dod i nabod ein gilydd, trwy fwynhau awyrgylch hamddenol dinas Helsinki. Yn wir, trist oedd gadael ein tri ffrind newydd ar ôl y deuddydd.

Yn nhref Kajaani treuliais weddill fy amser, yn byw gyda theulu caredig drosben. Rhaid oedd teithio 7 awr mewn trên er mwyn cyrraedd yma – taith flinedig iawn! Tra yn Kajaani, cefais amser bythgofiadwy, a phrofais bob math o bethau hollol unigryw. Mae'r Ffindir yn wlad ffantastig i ymweld a hi; mae ganddynt draddodiadau, arferion, tirwedd, iaith a diwylliant hollol unigryw, a cefais y cyfle i brofi hyn tra yn Kajanni.

Bwytais tua phum gwaith y dydd; roeddent yn hoff iawn o'u bwyd!...... siwtio fi i'r dim!! Teithiais ar ochr draw yr heol. Profais ddigwyddiadau 4H; roeddent yn ddigon tebyg i weithgareddau'r C.Ff.I. Methais gysgu, oherwydd dydy'r Ffindir ddim yn cael tywyllwch yn yr haf, gan nad ydy'r haul yn mynd o'r golwg.

Profais iaith hollol newydd –anodd oedd deall fy nheulu ar brydiau, er bod y fam yn gallu siarad peth Saesneg. Er hyn, doedd y rhwystr ieithyddol ddim yn effeithio dim ar fy mherthynas gyda'r teulu. Mae'n rhyfedd sut gallwch ddod i nabod pobl a thyfu i fod yn ffrindiau heb allu deall gair. Des i ben â gwneud ffrindiau oes er gwaetha'r diffyg dealltwriaeth ieithyddol.

Roedd defnyddio'r sawna yn draddodiad cryf ganddynt, ac roeddent yn ei ddefnyddio o leiaf tair gwaith yr wythnos. Roedd un ym mhob tŷ. Er mwyn dathlu diwrnod hiraf y flwyddyn, roedd teuluoedd yn casglu at ei gilydd i gael sawna, ac un traddodiad oedd ynghlwm gyda'r digwyddiad yma oedd creu 'vasta'. Vasta yw casgliad o ddail bedw wedi eu clymu gyda'i gilydd er mwyn chwipio'r corff yn y sawna!! Dysgais i wneud yr offeryn yma, a cefais y cyfle i'w ddefnyddio hefyd. Profiad digon hynod, i ddweud y lleiaf!

Felly siwrnau emosiynnol a phersonol, a dysgais i fod yn annibynnol mewn gwlad estron, dieithr, sydd erbyn hyn wedi tyfu i fod yn wlad arbennig iawn i fi. Profiad rhyfeddol a hollol bythgofiadwy oedd y daith yma i fi, a gallaf byth a diolch digon i fudiad y C.Ff.I a 4H am roi y fath gyfle i fi.

# Rali Ewropeaidd 2009 Estonia

Roedd yn fraint eleni cael fy newis yn arweinydd tîm rali Ewropeaidd Cymru a chael cydweithio a Buddug (CFfI Pennant), Lyn (CFfI Llanwenog), Ruth (CFfI Llangadog) a Marc (CFFI Eglwyswrw) wrth i ni baratoi ar gyfer y daith ar ddechrau mis Awst. Er mwyn cael amser gyda'n gilydd fel tîm hedfanodd y pump ohonom i Helsinki ddeuddydd yn gynnar. Y bore wedyn, dal fferi i Tallinn a chael treulio'r diwrnod yn y ddinas hardd yma.

Symud ymlaen y bore wedyn i'r pentref lle byddem yn ymgartrefu am yr wythnos, Janeda a oedd rhyw awr i'r dwyrain o Tallinn. Daeth cynrychiolwyr o 18 gwlad Ewropeaidd ynghyd i rannu syniadau, chwerthin, dysgu ac ar ambell i achlysur chwarae dwli!

Ar fore dydd Sul aeth pawb wedi eu gwisgo mewn gwisgoedd traddodiadol eu gwlad i'r seremoni agoriadol. Yn ystod yr wythnos, rhaid oedd ymgymryd â thasgau amrywiol a oedd yn rhoi prawf ar ein gallu i ddatrys problemau, yn profi sgiliau arweinyddiaeth, gwaith tîm a rheolaeth er mwyn cyrraedd nod cyffredin. Tasgau megis problemau arithmetic, cynnu tân, chwaraeon, cwisiau a helfa drysor.

'Beware, Active Youth' oedd thema'r rali eleni a threfnwyd cyfres o weithdai a oedd yn rhoi'r cyfle i ni archwilio'r thema mewn amryw gyd-destun wrth i ni drafod pynciau megis pobl ifanc a'u cymunedau lleol, cyfranogiad pobl ifanc, polisi pobl ifanc, iechyd, gwaith, ysgogi pobl ifanc, perthynas rhwng mudiadau rhyngwladol ac ariannu. Un o uchafbwyntiau'r trafod oedd gweithdy'r 'World Cafe' lle'r oedd cyfle i leisio barn ar gyfranogiad pobl ifanc yn eu mudiadau ieuenctid a'u cymunedau. Does dim un rali Ewropeaidd yn gyflawn heb y bwffe rhyngwladol. Dyma noson sy'n bywhau'r synhwyrau (ac yn gallu lladd ambell un hefyd!) wrth i bob gwlad gyflwyno eu bwyd a'u diod unigryw i weddill Ewrop. Mae'n noson arbennig iawn wrth i bawb grwydro gwledydd Ewrop yn blasu'r danteithion sydd gan bob gwlad i'w gynnig. Ond coeliwch fi roedd 'na ambell i beth amheus i'w weld ar rhai byrddau a doedd eu blas nhw ddim lot gwell chwaith!

Roedd noson adloniant y gwledydd yn gymysgedd diddorol o ganu, dawnsio, gemau a chomedi. Cyfle gwych oedd hwn i ddysgu ychydig mwy am draddodiadau a diwylliant y gwledydd wrth i bob un gael 5 munud i berfformio ar lwyfan. Adloniant pur a phawb yn cefnogi ei gilydd gan greu naws arbennig oddeutu'r llwyfan, allan yn yr awyr agored.

Gwelwyd un daffodil, un genhinen, Shirley Bassey, Tom Jones a'r archdderwydd ar y llwyfan yng nghyflwyniad Cymru, wrth i ni geisio rhoi blas i'r gynulleidfa. Gwelwyd hefyd arddangosfa gneifio defaid a chais yn cael ei sgorio yn stadiwm y mileniwm. Ymunodd y gynulleidfa oll gyda ni wrth i ni floeddio Ogi, ogi, ogi ar draws y lle a phawb i weld wedi mwynhau'r perfformiad.



Ar y dydd Mercher aeth y pedwar aelod arall o'r tîm ar ymweliad a chastell o'r canol oesoedd ac yna ymlaen i aros gyda theuluoedd. Roedd hwn yn brofiad arbennig iddynt ac roedd ganddynt dipyn o straeon i'w adrodd wrth ddychwelyd a oedd yn cynnwys prynu car! Erbyn dydd Gwener roedd pawb yn dra blinedig wedi wythnos brysur ond daeth ton o egni drosom wedi neidio i mewn i'r llyn oer i nofio rhyw ychydig. Mynychwyd y cinio ffarwel a bum yn dawnsio nes yr oriau man!

Dyna oedd wythnos! Profiad bythgofiadwy wrth i ni ddysgu am Ewrop, ei gledydd a'i phobl, am y gwahaniaethau a'r hyn sy'n debyg, am y problemau a chynnig atebion iddynt ac ochr yn ochr â hyn cael lot o sbort! Mae'r cyfle i deithio gyda'r CFFI yn un arbennig a dwi'n diolch o galon i CFfI Cymru am gael bod yn arweinydd ar dîm rali Ewropeaidd 2009. Os oes aelodau a'u bryd ar weld ychydig o'r byd, anogaf i chi i fanteisio i'r eithaf ar raglen ryngwladol CFfI Cymru. Mae'r profiad o aros gyda theuluoedd mewn gwlad estron yn rhoi gwir flas i chi o'i diwylliant a'i ffordd o fyw - profiadau na chewch ar wyliau arferol. Cewch amdani! Enfys Evans, C.Ff.I. Llanddeiniol.

# Karibu Kenya - Croeso i Kenya!

Ar ôl proses o ymgeisio a chael cyfweliad yn Stratford Upon Avon ac yna misoedd o baratoi a chyffro, fe fentrodd tair o G.Ff.I. Ceredigion sef Mererid Davies, Pontsian, Alwen Jones, Felinfach a Manon Richards, Llanwenog ynghŷd ag wyth aelod arall o'r mudiad i Kenya. Wrth deithio draw i Heathrow ar yr 8fed o Awst, roedd ein meddyliau ar ras wrth drafod yr hyn a oedd yn ein hwynebu. Rhai yn poeni am y bwyd, eraill am effaith y tlodi ac eraill am y teuluoedd y bydden yn treulio ein wythnos gyda nhw.

Wedi glanio yn Nairobi a theithio drwy'r ddinas roedd y cyfoeth a'r tlodi mor amlwg a'i gilydd, y tai crand ar y naill law a'r tai shanti ar y llall. Wrth bellhau o'r ddinas roedd y tlodi yn dod yn amlycach a'r cyfoeth yn diflannu, y rhewlydd tarmac yn troi'n rhewlydd llwch, pedair olwyn yn troi'n ddwy droed a'r siopau yn troi'n stondinau pren. Pen y daith oedd pentref Mulaani ger tref Machakos lle byddem yn ymgartrefi. Perthyn i lwyth yr Akamba oedd y brodorion a Kikamba oedd eu mamiaith. Wrth i'r 11 ohonom gael ein rhannu rhwng y chwech teulu, eto roedd y tlodi yn amlwg, toeon sinc, dim dŵr tap na thrydan, lloriau concrit a thwll yn y llawr fel toiled. Er diffyg y pethau materol hyn roedd croeso twymgalon yn ein disgwyl. Bu'r lluniaeth am yr wythnos yn amrywio o reis, india-corn (maize), ffa, bresych, 'kale,' uwd milet a chig gafr. Doedd dim sglodion na siocled ar y fwydlen fan hyn!

Roedd ein diwrnodau wedi cael eu rhannu fel ein bod yn profi nifer o feysydd gwahanol o fywydau'r trigolion. Am fod amaethyddiaeth a thyfu cnydau yn rhan annatod o'u bywydau cafwyd nifer o weithgareddau ynghlwm â hyn. Y broblem fwyaf oedd yn eu hwynebu oedd eu bod ynghanol y sychder mwyaf ers 50 mlynedd. Roedd cynnal eu hunain yn frwydr parhaol oherwydd roedd yn rhaid cerdded milltiroedd i hol dwr a roedd y diffyg tyfiant yn golygu nad oedd digon o fwyd i'r bobl na'r anifeiliaid. Er hyn, roeddent yn ceisio goresgyn y sefyllfa.

Bywoliaeth nifer o'r trigolion oedd gwneud crefftau a fyddai'n cael eu gwerthu mewn marchnadoedd cyfagos. Roedd gwehyddu basgedi a phlethu rhaffau yn ddwy grefft boblogaidd ond fel y profom, anodd iawn! Roeddent hefyd yn gwenud crochenwaith a cherflunio deunydd o bren.

Yn ystod ein hymwelaid cawsom gyfle i ymweld ag ysgol gynradd ac uwchradd. Ystyrir addysg yn beth pwysig a chaiff ei werthfawrogi am eu bod nhw yn ei weld fel allwedd i ddyfodol gwell. Di-raen oedd yr adeiladau a bach iawn o adnoddau oedd ganddynt. Serch hyn roedd yr athrawon yn ysbrydioledig eu ffordd ac yn ymroddgar iawn i'w gwaith. Disgwylid i'r plant gerdded i'r ysgol erbyn 6.45 bob bore i sgubo'r lloriau cyn paratoi am wersi'r dydd a ni fyddant yn troi am adre tan 4.30, diwrnod hir iawn! Erbyn cyrraedd yr ysgol uwchradd yn 14 oed roedd amaethyddiaeth yn cael ei gynnig fel pwnc ac yn boblogaidd gan y disgyblion. Roeddent yn cael eu dysgu sut i dyfu cnydau a chadw stoc, roedd hyd yn oed buwch Ffrisian odro yn cael ei chadw ar dir yr ysgol.



Roedd eu cred Gristnogol yn eu cynnal trwy'r cyfnodau anodd ac roeddent yn wirioneddol ddiolchgar am yr hyn oedd ganddynt, er cyn lleied ydoedd. Felly, wrth i ni gael cawod, defnyddio peiriant golchi dillad a llestri, troi at y tap dwr a fflysio'r toiled rydym yn eu gwerthfawrogi ac yn cofio am ein ffrindiau newydd!

Cawsom amser bythgofiadwy yn Kenya a byddwn yn annog unrhyw aelod i fentro ar daith ryngwladol gyda'r mudiad. 'Nimuvea' – Diolch!

Mererid Davies, Alwen Jones a Manon Richards

# CANLYNIADAU CYSTADLAETHAU

# Rali Mydroilyn 2009

Er gwaethaf y tywydd gwlyb, cafwyd rali llwyddiannus ar fferm Gafryw, Mydroilyn ddechrau Mehefin. Wedi cystadlu brwd, llongyfarchiadau i glwb Llanddeiniol ar ddod yn fuddugol.



**Criw 2009**



**Llwyddiant Llanddeiniol!**

## Cystadlu yn y Sioe Fawr

Er gwaethaf y tywydd ansefydlog bu nifer fawr o aelodau C.FF.I. Ceredigion yn cystadlu yn y Sioe Frenhinol. Yn anffodus bu rhaid gohirio'r gystadleuaeth Rygbi oherwydd y tywydd. Daeth y Sir yn 2il ar ddiwedd y pedwar diwrnod gydag 87 o farciau gyda Sir Gâr yn ennill gyda 90 o farciau. Dyma ganlyniadau Ceredigion:

**Arddangosfa Ffederasiwn** – 4ydd: Penparc
**Cneifio** – 4ydd: Rhydian Evans, Talybont (1af dan 26) a Ceredig Lewis, Llangwyryfon
**Hyrwyddo Clwb** – 2il: Llanwenog
**Pypedau a Sioe** – 1af: Bryngwyn
**Crefft** – 2il: Sioned Owens, Pennant
**Coginio** – 3ydd: Sara a Sian Downes, Llangeitho
**Blodau** – 3ydd: Elen Davies, Tregaron
**Cystadleuaeth Aelodau** – 1af (Crefft, Coginio a Blodau)
**Syrcas** – cyd. 4ydd: Caerwedros
**Barnu Gwartheg Charolais** – 8fed. Dewi Jenkins, Talybont 3ydd dan 16; Ceris James, Bryngwyn 3ydd dan 18
**Gwisgo Arweinydd** – 5ed: Darren Hopkins a Carys Danton, Dihewyd
**Dawnsio** – 3ydd: Pontsian
**Bonesig a'i Chi** – 1af Dewi a Geraint Jenkins, Talybont
**Barnu Defaid Lleyn** – 10fed
**Mae Gan C.Ff.I. Dalent** – 7fed: Caerwedros a Dihewyd
**Tynnu'r Gelyn Merched** - 3ydd: Llanddewi Cymysg
**Coedwigaeth** – 3ydd: Dion Davies ac Eilir Williams, Pontsian
**Barnu Cobiau Cymreig** – 7fed
**Meimio i Gerddoriaeth** – 2il: Caerwedros
**'Generation Game'** – 4ydd: Elliw Mair a Lowri Pugh-Davies, Bro'r Dderi



Dymunwn fel Sir ddiolch i Siop Celtic yn Aberaeron am eu haelioni i noddi crysau Rygbi newydd y Sir. Diolch yn fawr iawn i chi.

### TREIALON CŴN DEFAID

Cynhaliwyd diwrnod o gystadlu ar gaeau Morfa, Llanrhystud ddechrau Awst gyda nifer fawr yn rhedeg eu cŵn mewn 5 dull. Diolch yn fawr i deulu Jones am y lleoliad a'r defaid ac i Garej Tegfan am noddi'r diwrnod.

**Adran y C.Ff.I.** - 1af Aled Llyr Thomas Talybont
Cydradd - 2il Bleddyn Davies Caerwedros, Morfudd Lewis Talybont ac Dewi Jenkins Talybont

## CHWARAEON Y SIR

Gorfodwyd ni i ail-drefnu chwaraeon y Sir eleni, o ganlyniad i'r tywydd. Serch hynny, cafwyd dwy noson lwyddiannus ar gaeau Ysgol Gyfun Llanbed a gwelwyd nifer dda o aelodau yn cystadlu a chwysu!! Llongyfarchiadau i Bontsian ar ddod i'r brig eleni eto!

Yn Aberhonddu, cynhaliwyd diwrnod chwaraeon C.Ff.I. Cymru a death llwyddiant pellach i glwb Pontsian wrth iddynt ennill y gystadleuaeth hoci i ferched dan 26 oed. O ganlyniad i hyn, aethant ar daith i Stafford i gynrychioli C.Ff.I. Cymru a braf yw nodi bod y merched wedi dod yn 2il ar ôl diwrnod llawn o gystadlu. Da iawn chi!



## CHWARAEON DAN DÔ

Cafwyd noson bleserus a chystadleuol yn Llanddewi Brefi yn chwaraeon dan dô'r Sir. Llongyfarchiadau i Glwb Felinfach ar ddod yn fuddugol, ac i glybiau Llanwenog a Phontsian ar ddod yn gydradd ail. Da iawn i bawb a fu'n cystadlu!




O'r dde i'r chwith - cadeiryddion y clybiau: Heilin Thomas, Llanwenog; Mererid Jones, Felinfach; Teleri Morris, Pontsian.

## CYNNYDD AELODAETH

Yng nghyfarfod blynyddol y Sir yng Nghiliau Aeron, cyhoeddwyd mai Lledrod oedd â'r cynnydd mwyaf mewn aelodaeth yn y flwyddyn 2008-2009. Dihewyd ddaeth 2il, Llanwenog yn 3ydd a Llanddeiniol yn 4ydd. Cyfanswm aelodaeth C.Ff.I. Ceredigion y llynedd oedd 796. Gobeithio bydd yr aelodaeth yn fwy eto eleni!!

## STOCMON HŶN Y FLWYDDYN

Llongyfarchiadau i Menna Davies, C.Ff.I. Dihewyd ar ddod yn ail agos yng nghystadleuaeth stocmon hŷn y flwyddyn ar lefel genedlaethol. Tipyn o gamp! Cynhaliwyd cystadleuaeth NFYFC yn Sioe Laeth Stonleigh.



## SIARAD CYHOEDDUS SAESNEG

Cafwyd dwy noson o gystadlu da drwy gyfrwng y Saesneg yn Theatr Felinfach ddechrau Hydref. Dyma'r rhai a ddaeth i'r brig:-

**Dan 14: Cadeirydd a Darllenydd gorau:**
Bethan Green, Caerwedros A

**Tîm: Caerwedros A**



**Dan 16**

**Cadeirydd:** Morgan Davies, Mydroilyn A

**Siaradwraig:** Sian Downes, Llangeitho A

**Diolchydd:** Heini Mai Phillips, Llangeitho B

**Tîm: Llangeitho A**

**Dan 21**

**Cadeirydd:** Enfys Hatcher, Llanwenog

**Siaradwraig:** Catrin Haf Jones, Mydroilyn



**Tîm: Llanwenog**



**Dan 26**

**Cadeirydd:** Lyn Jenkins, Llanwenog B

**Siaradwraig:** Hannah Parr, Llangeitho

**Tîm: Llangeitho**

**Canlyniadau Terfynol:**
**1af Llanwenog, 2il Pontsian, 3ydd Llangeitho.**

C.FF.I. CEREDIGION Y.F.C.

CYFLENWI A GOSOD POB MATH O FFENS



GAN
**DYFRIG JONES**

**CONTRACTWR FFENSIO**

**RHIF FFON: 07974 790534 / 01545 581141**


Alta Cymru

*Your Local A.I. Service*
*Eich Cwmni A.I. Lleol*

*Mae Alta Cymru yn falch o gefnogi Mudiad y Fferwyr Ifanc*
*Alta Cymru is a proud sponsor of the Young Farmers' Clubs*

**Swyddfa/Office: 01994 231734**
**www.altagenetics.com**

*Create Value ▲ Build Trust ▲ Deliver Results*




www.atebol.com
**T**: 01970 832 172
**e-bost**: marchnata@atebol.com

**Tociwr Traed**
**Foot Trimmer**

**Cysylltwch â:**
**Contact:**
Dafydd Mills

**Symudol/ Mobile: 07866 742 255**

## DYDDIADAU I'W COFIO

| | |
|---|---|
| 3 Tachwedd | Hyfforddiant Barnu Wŷn Tew |
| 4 Tachwedd | Hyfforddiant Barnu Bîff Tew |
| 9 Tachwedd | Cwis Iau'r Sir |
| 11 Tachwedd | Hyfforddiant Barnu Carcas |
| 15 Tachwedd | Cyfweliadau Tramor CFFI Cymru |
| 18 Tachwedd | Pwyllgorau'r Sir |
| 25 Tachwedd | Cyfarfod Dathlu y Sir yn 70 oed |
| 26 Tachwedd | Cwis y Sir |
| 30 Tachwedd | Ffair Aeaf |
| 1 Rhagfyr | Ffair Aeaf |
| 4 Rhagfyr | Dawns y Frenhines, Sir Benfro |
| 5 Rhagfyr | Cyfweliadau Rhyngwladol NFYFC |
| 6 Rhagfyr | Cymanfa'r Frenhines a'r Ffermwr Ifanc, Capel y Groes, Llanwnnen |
| 22 Rhagfyr | Dawns y Frenhines, Sir Gâr |
| 29 Rhagfyr | Dawns y Frenhines, Ceredigion Pafiliwn Pontrhydfendigaid |

**2010**

| | |
|---|---|
| 13 - 15 Ionawr | Siarad Cyhoeddus Cymraeg |
| 20 Ionawr | Pwyllgorau'r Sir |
| 22 Ionawr | Noson 'Rhowch gynnig arni' |
| 6 Chwefror | Cyngor ac Is-Bwyllgorau Cymru |
| 15 - 19 Chwefror | Cystadleuaeth Drama |
| 22 - 23 Chwefror | Cystadleuaeth Drama |
| 26 - 27 Chwefror | Penwythnos Cymraeg Cymru |
| 5 Mawrth | Dawns Dewis Swyddogion |
| 5 - 6 Mawrth | Penwythnos Saesneg Cymru |
| 17 Mawrth | Pwyllgorau'r Sir |
| 27 Mawrth | Diwrnod Maes |

Gobeithio eich bod wedi mwynhau y rhifyn diweddaraf o Ar Dân. Os oes gennych unrhyw syniadau o sut allwn ddatblygu'r cylchgrawn, neu os oes gennych unrhyw storïau neu luniau yr hoffech i ni eu cynnwys yn y rhifyn nesaf yna e-bostiwch ardan@live.co.uk

Tîm Golygu
Emyr Evans, Eleri James, Hedydd Davies, Mererid Jones, Manon Richards, Einir Ryder,